



Polisi Preifatrwydd

TGP CYMRU | 12 Heol y Gogledd Caerdydd CF10 3DY



TGP Cymru Polisi Preifatrwydd 1 Mehefin 2018 Awdur: Rhiannon Beaumont-Walker I'w Adolygu: 2021

TGP Cymru yw enw gwaith Tros Gynnal Plant. Rhif Elusen Gofrestredig 1099878. Wedi cofrestru fel cwmni cyfyngedig drwy warant rhif 04422485 (Cymru a Lloegr). Swyddfa Gofrestredig: 12 Heol y Gogledd, Caerdydd, CF10 3DY

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Diben
3. Cwmpas
4. Sut rydym yn cael eich data personol
5. Sail gyfreithlon ar gyfer prosesu eich data
6. Y wybodaeth y byddwn ni'n ei chasglu
7. Sut mae TGP Cymru yn defnyddio eich gwybodaeth
8. Sut mae TGP Cymru yn rhannu eich gwybodaeth
9. Am faint mae TGP Cymru yn cadw eich gwybodaeth
10. Sut mae TGP Cymru yn cadw eich gwybodaeth yn ddiogel
11. Dolenni
12. Os ydych yn 16 mlwydd oed neu iau
13. Eich hawliau mewn Perthynas â'ch Gwybodaeth
14. Gwybodaeth Personol Sensitif
15. Newidiadau i'r polisi hwn

1. Cyflwyniad

TGP Cymru yw enw gwaith Tros Gynnal Plant. Rhif Elusen Gofrestredig 1099878. Wedi cofrestru fel cwmni cyfyngedig drwy warant rhif 04422485 (Cymru a Lloegr). Swyddfa Gofrestredig: 12 Heol y Gogledd Caerdydd CF10 3DY

Mae TGP Cymru yn elusen wedi'i lleoli yng Nghymru sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd gyda phrosiectau a gwasanaethau ym mhob cwr o Gymru gan gynnwys cymorth annibynnol a chyfrinachol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd drwy eiriolaeth, cyfranogiad a gwaith teulu.

Mae TGP Cymru wedi ymrwmo i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol a bod yn dryloyw ynghylch beth rydym yn ei wneud gyda'r wybodaeth. Rydym wedi ymrwmo i ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol yn unol â'r holl gyfreithiau perthnasol sy'n ymwneud â diogelu gwybodaeth bersonol.

2. Diben

Mae'r Polisi Preifatrwydd hwn yn esbonio:

- sut y gall TGP Cymru gael eich gwybodaeth bersonol
- y wybodaeth y byddwn ni'n ei chasglu
- sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth honno
- gyda phwy y byddwn ni'n rhannu eich gwybodaeth
- eich dewisiadau a'ch hawliau ynghylch gwybodaeth amdanoch chi sydd gennym ni
- a sut rydym yn defnyddio cwcis i ddarparu gwasanaethau i chi neu i wella eich defnydd o'n gwefannau.

Mae'r polisi hwn wedi'i ysgrifennu yn unol â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 2018. Mae TGP Cymru wedi'i gofrestru o dan y Ddeddf fel Rheolwr Data o dan y rhif Z7589814.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Polisi Preifatrwydd hwn, cysylltwch â'n Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymorth yn TGP Cymru, 12 Heol y Gogledd, Caerdydd, CF10 3DY.

3. Cwmpas

1. Mae'r polisi hwn yn ymwneud â'r holl ddata personol a sensitif a gedwir gan TGP Cymru waeth beth fo'r fformat.

2. Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff (gan gynnwys staff a chontractwyr dros dro, achlysurol neu staff a chontractwyr asiantaeth, ymgynghorwyr, cyflenwyr a phroseswyr data sy'n gweithio i, neu ar ran y sefydliad), gwirfoddolwyr, defnyddwyr gwasanaeth ac ymwelwyr i'n gwefan.

TGP Cymru Polisi Preifatrwydd 1 Mehefin 2018 Awdur: Rhiannon Beaumont-Walker I'w Adolygu: 2021

TGP Cymru yw enw gwaith Tros Gynnal Plant. Rhif Elusen Gofrestredig 1099878. Wedi cofrestru fel cwmni cyfyngedig drwy warant rhif 04422485 (Cymru a Lloegr). Swyddfa Gofrestredig: 12 Heol y Gogledd, Caerdydd, CF10 3DY

4. Sut rydym yn cael eich data personol

Rydym yn casglu gwybodaeth yn y ffyrdd canlynol:

- Pan fyddwch yn ymweld â'n gwefan
- Pan fyddwch chi'n rhyngweithio â'n gwefan
- Pan fyddwch chi'n cysylltu â ni drwy'r cyfryngau cymdeithasol
- Pan fyddwch chi'n cysylltu â ni'n uniongyrchol
- Pan fyddwch yn rhoi caniatâd i bartïon eraill ei rannu gyda ni

Pan fyddwn yn casglu eich gwybodaeth bersonol rydym yn defnyddio gweithdrefnau llym a dulliau diogelwch i atal mynediad heb awdurdod. Fodd bynnag, nid yw unrhyw achos o drosglwyddo data dros y rhyngwyd yn 100% o fod yn ddiogel. O ganlyniad, er y byddwn yn ceisio diogelu eich gwybodaeth bersonol, ni all TGP Cymru warantu diogelwch unrhyw wybodaeth y byddwch chi'n ei throsglwyddo i ni ac rydych chi'n gwneud hynny ar eich menter eich hun.

5. Sail gyfreithlon ar gyfer prosesu eich data

Nodir y seiliau cyfreithiol ar gyfer prosesu yn Erthygl 6 y GDPR. Rhaid i un o'r rhain o leiaf fod yn berthnasol pryd bynnag y bydd TGP Cymru yn prosesu data personol ac fe'i pennir mewn perthynas â phob math o wybodaeth o dan yr adran Y wybodaeth y byddwn ni'n ei chasglu isod.

(a) *Caniatâd*: mae'r unigolyn wedi rhoi caniatâd clir i TGP Cymru brosesu eu data personol at ddiben penodol.

(b) *Contract*: mae'r prosesu yn angenrheidiol ar gyfer contract sydd gan TGP Cymru gyda'r unigolyn, neu oherwydd eu bod wedi gofyn i TGP Cymru gymryd camau penodol cyn mynd i mewn i gontract.

(c) *Rhwymedigaeth gyfreithiol*: mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn i TGP Cymru gydymffurfio gyda'r gyfraith (heb gynnwys rhwymedigaethau cytundebol).

(d) *Buddiannau hanfodol*: mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn bywyd rhywun.

(e) *Tasg gyhoeddus*: mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn i TG Cymru gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu ar gyfer ein swyddogaethau swyddogol, ac mae gan y dasg neu'r swyddogaeth sail glir yn y gyfraith.

(f) *Buddiannau dilys*: mae'r prosesu yn angenrheidiol ar gyfer buddiannau dilys TGP Cymru neu fuddiannau dilys trydydd parti oni bai bod rheswm da i ddiogelu data personol yr unigolyn sy'n diystyru'r buddiannau dilys hynny.

6. Y wybodaeth y byddwn ni'n ei chasglu

1. Pan fyddwch yn ymweld â'n gwefan

Rydym yn defnyddio trydydd partïon – Fasthosts - fel gwesteigr ac United Graphic Design i gynnal ein gwefan. Mae gweinydd ein gwefan yn cofnodi'r cyfeiriad IP y byddwch chi'n ei ddefnyddio i fynd ar ein gwefan yn awtomatig yn ogystal â gwybodaeth arall am eich ymweliad fel y tudalennau rydych chi'n ymweld â nhw, gwybodaeth y gwneir cais amdani, dyddiad ac amser y cais, ffynhonnell eich ymweliad â'n gwefan (e.e. y wefan neu'r URL (dolen) wnaeth eich cyfeirio chi i'n gwefan) a'ch fersiwn porwr a system weithredu. Mae ein gweinydd wedi'i leoli yn y Deyrnas Unedig.

Mae ein Darparwr Gwasanaeth TG - AmitecIT yn storio cofnodion er mwyn sicrhau diogelwch rhwydwaith a TG ac er mwyn sicrhau nad yw'r gweinydd a'r wefan yn cael eu peryglu. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi ffeiliau log i helpu i nodi ac atal mynediad heb awdurdod i'n rhwydwaith, dosbarthiad codau maleisus, atal ymosodiadau gwasanaethau a seiber-ymosodiadau eraill, drwy ddarganfod gweithgarwch anarferol neu amheus.

Oni bai ein bod yn ymchwilio i weithgarwch troseddol posibl neu amheus, nid ydym yn gwneud, ac nid ydym yn caniatáu i'n gweinydd gwefan neu ddarparwyr gwasanaethau TG i wneud unrhyw ymgais i'ch adnabod o'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r cofnodion gweinydd.

Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu: Erthygl 6(1)(c) y GDPR – cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol yr ydym yn ddarostyngedig iddynt.

Rhwymedigaeth gyfreithiol: Mae gennym rwymedigaeth gyfreithiol i roi mesurau sefydliadol priodol a thechnegol er mwyn sicrhau lefel o ddiogelwch sy'n briodol i risg prosesu gwybodaeth am unigolion. Mae cofnodi mynediad i'n gwefan gan ddefnyddio gweinydd ffeiliau log gweinydd yn fesur o'r fath.

Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu: Erthygl 6(1)(f) y GDPR – ein buddiannau dilys.

Buddiannau dilys: mae gennym ddiddordeb dilys i ddefnyddio eich gwybodaeth at ddibenion sicrhau diogelwch rhwydwaith a gwybodaeth.

1.1. Polisi Cwcis

Mae TGP Cymru yn defnyddio Cwcis. I ddysgu mwy ac i gael hysbysiad cwcis manwl dylech edrych ar y Polisi Cwcis yn www.tgycymru.org.uk

1.2. Pan fyddwch chi'n rhyngweithio â'n gwefan

Os ydych chi'n rhoi rhodd i TGP Cymru neu gymryd rhan mewn gweithgaredd codi arian byddwn yn casglu unrhyw ddata penodol ar gyfer gohebiaeth posibl yn y dyfodol fel cylchlythyrau neu apeliadau codi arian, Byddwn bob amser yn rhoi cyfle i 'optio allan' ar y cam hwn os byddai'n well gennych chi beidio â derbyn unrhyw ohebiaeth bellach oddi wrthym.

Ar gyfer rhoddion rydym yn defnyddio BT MyDonate, gellir gweld copi o'u Polisi Preifatrwydd yma: <https://www.btplc.com/mydonate/aboutmydonate/Privacypolicy/>

2. Pan fyddwch chi'n cysylltu â ni drwy'r cyfryngau cymdeithasol

Pan fyddwch chi'n cysylltu â ni drwy'r cyfryngau cymdeithasol byddwch yn rhoi caniatâd i rannu eich data a amlinellwyd yn hysbysiad preifatrwydd a thelerau ac amodau y llwyfan cyfryngau cymdeithasol. Yna mae'r ffordd rydyn ni'n prosesu eich data yn cael ei gwmpasu gan y polisi hwn.

3. Pan fyddwch chi'n cysylltu â ni'n uniongyrchol

Efallai y byddwch yn rhoi gwybodaeth i ni pan fyddwch yn gwneud y canlynol:

- cysylltu â ni i ofyn am ein gwasanaethau
- defnyddio un o'n gwasanaethau
- ymgeisio am swydd gyda ni
- rhoi rhodd i ni
- codi arian ar ein rhan
- rhoi gwybodaeth bersonol i ni fel arall.

Weithiau pan fyddwch yn ein cefnogi, bydd eich gwybodaeth yn cael ei chasglu neu ei phrosesu gan sefydliad sy'n gweithio i ni (e.e. asiantaeth codi arian proffesiynol neu gwmni prosesu data). Lle maen nhw'n ei wneud yn gyfan gwbl ar ran TGP Cymru bydd ganddynt eu Polisi Preifatrwydd eu hunain ac unwaith y bydd eich gwybodaeth yn cael eu rhannu gyda ni byddwn yn gyfrifol am eich gwybodaeth a byddwn yn ei phrosesu yn unol â'n Polisi Preifatrwydd.

Rydym yn casglu'r wybodaeth ganlynol pan fyddwch yn cysylltu â ni'n uniongyrchol:

3.1. E-bost

Pan fyddwch yn anfon e-bost i unrhyw un o'n swyddfeydd / staff, rydym yn casglu eich cyfeiriad e-bost ac unrhyw wybodaeth arall a ddarparwch yn yr e-bost (fel eich enw, rhif ffôn, a manylion pellach sy'n ymwneud â'ch e-bost a'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn unrhyw floc llofnod e-bost).

Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu: Erthygl 6(1)(f) y GDPR – ein buddiannau dilys.

Buddiannau dilys: ymateb i ymholiadau a negeseuon rydyn ni'n eu derbyn a chadw cofnodion o ohebiaeth.

Trosglwyddo a storio eich gwybodaeth

Mae gohebiaeth ar e-bost yn cael ei storio yn y DU

3.2. Ffurflen gysylltu

Pan fyddwch yn cysylltu â ni drwy ein ffurflen gysylltu, rydym yn casglu'r wybodaeth ganlynol gennych chi: eich enw, cyfeiriad e-bost ac unrhyw wybodaeth rydych chi'n ei chynnwys ym maes y neges.

Os nad ydych yn darparu'r wybodaeth orfodol sy'n ofynnol gan ein ffurflen gysylltu, ni fyddwch yn gallu cyflwyno'r ffurflen gysylltu ac ni fyddwn yn derbyn eich ymholiad.

Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu: Erthygl 6(1)(f) y GDPR – ein buddiannau dilys.

Buddiannau dilys: ymateb i ymholiadau a negeseuon rydyn ni'n eu derbyn a chadw cofnodion o ohebiaeth.

Trosglwyddo a storio eich gwybodaeth

Caiff negeseuon rydych chi'n eu hanfon i ni drwy ein ffurflen gysylltu yn cael eu storio yn y DU.

3.3. Ffôn

Pan fyddwch yn cysylltu â ni ar y ffôn, byddwn yn casglu eich rhif ffôn, dyddiad ac amser eich galwad ac unrhyw wybodaeth y byddwch chi'n ei rhoi i ni yn ystod yr alwad honno. Nid ydym yn recordio galwadau ffôn.

Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu: Erthygl 6(1)(f) y GDPR – ein buddiannau dilys.

Buddiannau dilys: ymateb i ymholiadau a negeseuon rydyn ni'n eu derbyn a chadw cofnodion o ohebiaeth.

Trosglwyddo a storio eich gwybodaeth

Mae gwybodaeth am eich galwad, fel eich rhif ffôn a dyddiad ac amser eich galwad yn cael ei phrosesu gan ein darparwr gwasanaeth ffôn trydydd parti ac yn cael ei storio yn y Deyrnas Unedig.

3.4. Post

Os byddwch yn cysylltu â ni drwy'r post, byddwn yn casglu unrhyw wybodaeth a rowch i ni mewn unrhyw ohebiaeth byddwch chi'n ei anfon atom drwy'r post.

Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu: Erthygl 6(1)(f) y GDPR – ein buddiannau dilys.

Buddiannau dilys: ymateb i ymholiadau a negeseuon rydyn ni'n eu derbyn a chadw cofnodion o ohebiaeth.

Trosglwyddo a storio eich gwybodaeth

Mae'r wybodaeth rydych chi'n ei hanfon atom ni drwy'r post yn cael ei storio yn y Deyrnas Unedig.

3.5. Ffurflen atgyfeirio

Pan fyddwch yn llenwi ffurflen atgyfeirio, naill ai ar-lein, neu â llawn neu dros y ffôn, rydym yn casglu'r wybodaeth ganlynol gennych chi: eich enw, dyddiad geni, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, ethnigrwydd, unrhyw wybodaeth am iechyd a gwybodaeth ychwanegol y byddwch chi'n ei chynnwys ar y ffurflen.

Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu: cydsynio ag (Erthygl 6(1)(a) y GDPR.

Caniatâd: os byddwch yn llenwi ffurflen atgyfeirio ar-lein eich hun byddwn yn prosesu eich gwybodaeth ar sail eich caniatâd, a rowch i ni drwy lenwi'r ffurflen.

TGP Cymru Polisi Preifatrwydd 1 Mehefin 2018 Awdur: Rhiannon Beaumont-Walker I'w Adolygu: 2021

TGP Cymru yw enw gwaith Tros Gynnal Plant. Rhif Elusen Gofrestredig 1099878. Wedi cofrestru fel cwmni cyfyngedig drwy warant rhif 04422485 (Cymru a Lloegr). Swyddfa Gofrestredig: 12 Heol y Gogledd, Caerdydd, CF10 3DY

Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu: hanfodol i berfformio contract neu gymryd camau ar eich cais i ymrwymo i gontract (Erthygl 6(1)(b) y GDPR).

Y rheswm pam ei bod hi'n angenrheidiol cyflawni'r contract: lle byddwch yn gwneud cais am wasanaeth drwy lenwi ffurflen atgyfeirio, er mwyn i ni ddarparu gwasanaeth i chi, byddwn yn prosesu eich gwybodaeth er mwyn cymryd camau ar eich cais i ymrwymo i gontract a darparu gwasanaethau gyda chi.

Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn cydnabod bod rhai categorïau o wybodaeth bersonol yn fwy sensitif. Gelwir hon yn wybodaeth bersonol sensitif ac mae'n cynnwys gwybodaeth am iechyd, tarddiad hiliol neu ethnig, credoau crefyddol neu gredoau eraill o natur debyg, barn wleidyddol ac aelodaeth o undeb llafur. Byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol sensitif lle mae angen clir i wneud hynny yn unig. Cyn casglu unrhyw wybodaeth bersonol sensitif amdanoch chi byddwn yn ei gwneud yn glir i chi pa wybodaeth rydym yn ei chasglu a dibenion ar gyfer casglu gwybodaeth o'r fath. Mae'r esboniad hwn wedi'i gynnwys ar ein ffurflenni caniatâd.

4. Pan fyddwch yn rhoi caniatâd i bartïon eraill ei rannu gyda ni

Gallai eich gwybodaeth gael ei rhannu gyda ni gan sefydliadau eraill fel atgyfeirwyr (gallai'r rhain fod yn adrannau gwasanaethau cymdeithasol neu ysgolion er enghraifft) neu safleoedd codi arian fel Just Giving. Bydd y trydydd parti'n annibynnol hyn yn gwneud hynny pan fyddwch wedi nodi eich bod yn dymuno cysylltu neu gefnogi TGP Cymru, gyda'ch caniatâd.

Dylech wirio eu Polisi Preifatrwydd pan fyddwch yn rhoi eich gwybodaeth i ddeall yn llawn sut y byddant yn prosesu eich gwybodaeth.

Efallai y byddwn yn cael gwybodaeth amdanoch gan aelod o'r teulu neu ffrind sy'n cysylltu â ni ar eich rhan neu os bydd rhywun sy'n codi arian yn rhoi eich manylion i ni.

Gall y wybodaeth y byddwn ni'n ei chasglu pan fyddwch wedi rhoi caniatâd i drydydd parti ei rhannu gyda ni gynnwys eich enw, cyfeiriad e-bost, manylion cyswllt, manylion personol ac unrhyw wybodaeth ychwanegol amdanoch y maen nhw'n ei rhoi i ni.

Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu: hanfodol i berfformio contract neu gymryd camau ar eich cais i ymrwymo i gontract (Erthygl 6(1)(b) y GDPR).

Y rheswm pam ei bod hi'n angenrheidiol cyflawni'r contract: lle mae trydydd parti wedi trosglwyddo gwybodaeth amdanoch chi i ni, er mwyn i ni ddarparu gwasanaeth i chi, byddwn yn prosesu eich gwybodaeth er mwyn cymryd camau ar eich cais i ymrwymo i gontract a chyflawni contract gyda chi.

Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu: cydsynio ag (Erthygl 6(1)(a) y GDPR).

Caniatâd: lle rydych chi wedi gofyn i drydydd parti rannu gwybodaeth amdanoch chi gyda ni a lle nad yw diben rhannu'r wybodaeth honno yn gysylltiedig â pherfformio contract neu wasanaethau gennym ni i chi, byddwn yn prosesu eich gwybodaeth ar sail ein caniatâd, a roddwch i ni drwy ofyn i'r trydydd parti dan sylw drosglwyddo eich gwybodaeth i ni.

7. Sut mae TGP Cymru yn defnyddio eich gwybodaeth

Mae sut yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth i raddau helaeth yn dibynnu ar pam rydych chi'n ei darparu. Gallwn ddefnyddio eich gwybodaeth yn y ffyrdd a nodir isod:

- Rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol i roi'r wybodaeth, y cymorth, y gwasanaethau, neu'r cynhyrchion rydych chi'n gofyn amdanynt.
- Rydym yn defnyddio eich gwybodaeth i gael dealltwriaeth lawn o'ch sefyllfa er mwyn gallu datblygu a chynnig y gwasanaethau personol gorau posibl i chi.
- Rydym yn defnyddio eich gwybodaeth i gadw cofnod o'ch perthynas gyda ni ac at ddibenion gweinyddol mewnol (megis ein cyfrifyddu a chofnodion), ac i roi gwybod i chi am newidiadau i'n gwasanaethau neu bolisiau. Rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol i edrych ar, ac ymateb i, gwynion, hawliadau cyfreithiol neu faterion eraill.
- Rydym yn defnyddio eich gwybodaeth i hawlio Rhodd Cymorth ar eich rhoddion.
- Rydym yn defnyddio data i gynnal dadansoddiad ystadegol ac ymchwil er mwyn ein helpu i ddeall sut yr ydym yn perfformio a sut y gallwn wella ein gwasanaethau a diwallu anghenion pobl sydd angen ein help.
- Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol at ddibenion eraill y byddwn yn ei hysbysu amdanynt a, lle y bo'n briodol, er mwyn cael eich caniatâd.
- Efallai y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth i anfon gohebiaeth i chi am ein gwaith a sut y gallwch chi ein helpu, er enghraifft, gwybodaeth am ein hymgyrchoedd, gwirfoddoli a gweithgareddau codi arian a sut y gallwch roi rhodd i ni. Yn achlysurol, gallwn gynnwys gwybodaeth gan sefydliadau partner neu sefydliadau sy'n ein cefnogi yn y gohebiaethau hyn.

8. Sut mae TGP Cymru yn rhannu eich gwybodaeth

Mae'r adran hon yn nodi sut y byddwn yn datgelu gwybodaeth amdanoch chi i drydydd partïon.

Ni fyddwn yn rhannu eich manylion ag unrhyw un heb eich caniatâd oni bai bod unrhyw un o'r canlynol yn wir:

- Mae gennym reswm i gredu eich bod chi neu rywun rydych yn cyfeirio atynt pan fyddwch yn rhannu gwybodaeth gyda ni mewn perygl o niwed, ac felly byddwn yn cyflwyno atgyfeiriad diogelu amlasiantaethol a gallem roi gwybod i'r gwasanaethau brys.

Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu: cydymffurfio gyda rhwymedigaeth gyfreithiol (Erthygl 6(1)(c) y GDPR

Rhwymedigaeth gyfreithiol: rhwymedigaethau cyfreithiol i ddatgelu gwybodaeth sy'n rhan o ddeddfau Cymru a Lloegr.

- Rydym yn amau ymddygiad troseddol neu ymddygiad troseddol posibl ac felly bydd angen i ni gysylltu â'r awdurdod priodol, megis yr heddlu.

Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu: cydymffurfio gyda rhwymedigaeth gyfreithiol (Erthygl 6(1)(c) y GDPR

TGP Cymru Polisi Preifatrwydd 1 Mehefin 2018 Awdur: Rhiannon Beaumont-Walker I'w Adolygu: 2021

TGP Cymru yw enw gwaith Tros Gynnal Plant. Rhif Eiusen Gofrestredig 1099878. Wedi cofrestru fel cwmni cyfyngedig drwy warant rhif 04422485 (Cymru a Lloegr). Swyddfa Gofrestredig: 12 Heol y Gogledd, Caerdydd, CF10 3DY

Rhwymedigaeth gyfreithiol: rhwymedigaethau cyfreithiol i ddatgelu gwybodaeth sy'n rhan o ddeddfau Cymru a Lloegr.

- Rydym yn rhan o anghydfod neu achos cyfreithiol neu anghydfod neu achos cyfreithiol posibl ac felly efallai y bydd angen i ni ddefnyddio eich gwybodaeth i ddatrys y mater.

Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu: ein buddiannau dilys (Erthygl 6(1)(f) y GDPR

Buddiannau dilys: datrys anghydfodau ac anghydfodau posibl.

- Mae gofyn i ni rannu eich gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol. Er enghraifft efallai y bydd angen i ni ddatgelu eich gwybodaeth yn unol â gorchymyn llys.

Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu: cydymffurfio gyda rhwymedigaeth gyfreithiol (Erthygl 6(1)(c) y GDPR

Rhwymedigaeth gyfreithiol: rhwymedigaethau cyfreithiol i ddatgelu gwybodaeth sy'n rhan o ddeddfau Cymru a Lloegr.

- Rydym yn defnyddio nifer o drydydd partïon dibynadwy i ddarparu ein gwasanaethau, sy'n angenrheidiol i redeg TGP Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Darparwyr ffôn (Y DU) - BT / Talk Talk
- Darparwr e-bost (Y DU) – Office 365
- Darparwyr gwasanaethau TG (Y DU) – Amitech IT
- Datblygwyr gwefannau (Y DU) – United Graphic Designs
- Gwesteiwyr (Y DU) - Fasthosts
- Darparwr system rheoli achosion (Y DU) - Building Block Computer Services Ltd

Efallai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gyda thrydydd partïon, sydd naill ai'n gysylltiedig â neu'n ymwneud â rhedeg ein busnes, lle mae angen i ni wneud hynny. Mae'r trydydd partïon hyn yn cynnwys cyfrifwyr ac archwilwyr, ymgynghorwyr, partneriaid busnes, contractwyr annibynnol ac yswirwyr. Mae gwybodaeth bellach ar bob un o'r trydydd partïon hyn yn cael ei hesbonio isod.

Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu: ein buddiannau dilys (Erthygl 6(1)(f) y GDPR

Diddordeb dilys: rhedeg a rheoli ein sefydliad yn effeithiol.

- Mae achlysuron pan fydd angen i ni adrodd ar ein gwaith yn fewnol ac i gyllidwyr / comisiynwyr allanol ac i wneud hyn rydym yn defnyddio data a gasglwyd ond yn sicrhau ei fod yn ddi-enw fel na ellir eich adnabod mewn unrhyw ffordd.

Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu: ein buddiannau dilys (Erthygl 6(1)(f) y GDPR

Buddiannau dilys: Rhoi tystiolaeth a dysgu o'r gwasanaeth/au sy'n cael eu cyflwyno yn fewnol ac i gyllidwyr allanol i ddangos defnydd effeithiol o adnoddau ac i ddatblygu a darparu gwasanaethau effeithiol yn y dyfodol.

TGP Cymru Polisi Preifatrwydd 1 Mehefin 2018 Awdur: Rhiannon Beaumont-Walker I'w Adolygu: 2021

TGP Cymru yw enw gwaith Tros Gynnal Plant. Rhif Elusen Gofrestredig 1099878. Wedi cofrestru fel cwmni cyfyngedig drwy warant rhif 04422485 (Cymru a Lloegr). Swyddfa Gofrestredig: 12 Heol y Gogledd, Caerdydd, CF10 3DY

Cyfrifwyr ac archwilwyr

Rydym yn rhannu gwybodaeth gyda'n cyfrifwyr ac archwilwyr at ddibenion archwilio. Er enghraifft, rydym yn rhannu anfonebau rydym yn eu cyhoeddi ac yn eu derbyn a chontractau rydym yn ymrwymo iddynt gyda'n cyfrifwyr ar gyfer cwblhau ein cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn. Mae ein cyfrifwyr wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig.

Ymgynghorwyr

Gallem geisio cyngor gan ymgynghorwyr fel cyfrifwyr, cyfreithwyr, arbenigwyr AD ac arbenigwyr eraill. Byddwn ond yn rhannu eich gwybodaeth gyda'r trydydd partïon hyn i'w galluogi i roi'r cyngor perthnasol i ni. Mae ein hymgyngorwyr wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig.

Partneriaid Busnes

Partneriaid busnes yw'r sefydliadau rydym yn gweithio gyda nhw sy'n darparu gwasanaethau sy'n ategu ein gwasanaethau ni ein hunain, neu wasanaethau na allwn eu darparu ar ein pen hunain. Rydym yn rhannu gwybodaeth â'n partneriaid busnes lle rydych wedi gofyn am wasanaethau a ddarperir ganddynt, boed hynny yn annibynnol neu mewn cysylltiad â'n gwasanaethau ni ein hunain. Mae ein partneriaid busnes wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig.

Contractwyr annibynnol

Yn achlysurol rydym yn defnyddio contractwyr annibynnol. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda chontractwyr annibynnol lle mae'n hanfodol iddyn nhw gyflawni swyddogaeth yr ydym wedi'u llogi i'w cyflawni mewn perthynas â'n busnes yn unig. Mae ein contractwyr annibynnol wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig.

Yswirwyr

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gyda'n hyswirwyr pan fo angen gwneud hynny, er enghraifft mewn perthynas â hawliad neu hawliad posibl rydyn ni'n ei dderbyn neu'n ei wneud neu o dan ein rhwymedigaethau datgelu cyffredinol o dan ein contract yswiriant gyda nhw. Mae ein hyswirwyr wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig.

9. Am faint mae TGP Cymru yn cadw eich gwybodaeth

Rydym yn cadw eich gwybodaeth yn unol â chyfnodau cadw penodol lle y bo'n bosibl ond er mwyn cydymffurfio â fframweithiau rheoleiddio gwahanol efallai y bydd angen i ni gadw gwybodaeth am gyfnod hirach.

Gohebiaeth ac ymholiadau

Pan fyddwch yn gwneud ymholiad neu'n cysylltu â ni drwy e-bost neu'r ffurflen gysylltu, byddwn yn cadw eich manylion am gyn hired ag y bydd yn gymryd i ni ymateb i/datrys eich ymholiad ac yna am 12 mis, ac wedi hynny byddwn yn dileu eich gwybodaeth.

Derbyn gwasanaeth

Bydd Tros Gynnal Plant yn cadw cofnodion y defnyddwyr gwasanaeth am gyfnod o bedair blynedd o ddiwedd y flwyddyn ariannol pan gafodd cofnod y Defnyddiwr Gwasanaeth ei gau. Bydd eithriadau i'r cyfnod 4 blynedd dan yr amgylchiadau isod:

- Lle pennir cyfnod cadw gwahanol mewn Cytundeb Lefel Gwasanaeth
- Lle mae angen cadw cofnod oherwydd bod y wybodaeth ynddynt yn berthnasol i gamau cyfreithiol sydd wedi cychwyn
- Lle mae'n ofynnol eu cadw yn hirach yn ôl y gyfraith

TGP Cymru Polisi Preifatrwydd 1 Mehefin 2018 Awdur: Rhiannon Beaumont-Walker I'w Adolygu: 2021

TGP Cymru yw enw gwaith Tros Gynnal Plant. Rhif Elusen Gofrestredig 1099878. Wedi cofrestru fel cwmni cyfyngedig drwy warant rhif 04422485 (Cymru a Lloegr). Swyddfa Gofrestredig: 12 Heol y Gogledd, Caerdydd, CF10 3DY

- Lle mae'r cofnod wedi'i archifo at ddibenion hanesyddol (e.e. lle'r oedd TGP yn destun achos cyfreithiol neu'n rhan o achos a ddygwyd gan awdurdod lleol). Lle mae achosion cyfreithiol bydd TGP yn ceisio cyngor cyfreithiol am gyfnod cadw'r cofnod.

Derbyn hyfforddiant

Bydd Tros Gynnal Plant yn cadw manylion y rhai sy'n mynychu hyfforddiant o ddiwedd y flwyddyn ariannol pan gynhaliwyd yr hyfforddiant.

Codi Arian

Mewn perthynas â Chofnodion Codi Arian, bydd Tros Gynnal Plant yn dilyn yr atodlen isod:

Enw a Manylion Cyfeiriad	6 mlynedd
Manylion Banc a Chardiau Credyd	Nes iddynt derbyn cais i roi'r gorau iddi
Cais atal TPS	Am gyfnod amhenodol
Cyfeiriad e-bost	3 blynedd
Cais optio i mewn ar e-bost ar gyfer ymgyrchoedd	Tan ddyddiad gorffen yr ymgyrch
Datganiad rhodd cymorth	6 blynedd ar ôl diwedd y cyfnod cyfrifyddu maen nhw'n ymwneud ag ef

10. Sut mae TGP Cymru yn cadw eich gwybodaeth yn ddiogel

Mae TGP Cymru yn cymryd mesurau technegol a sefydliadol priodol i ddiogelu eich gwybodaeth a'i ddiogelu rhag defnydd anawdurdodedig neu anghyfreithlon a cholli neu ddinistrio damweiniol, gan gynnwys:

- rhannu a rhoi mynediad at eich gwybodaeth i'r graddau gofynnol sy'n angenrheidiol yn unig, yn amodol ar gyfyngiadau cyfrinachedd lle y bo'n briodol ac ar sail ddiennw lle bo hynny'n bosibl
- defnyddio gweinyddion diogel i storio eich gwybodaeth
- defnyddio gwasanaethau diogel ar y cwmwl i storio eich gwybodaeth
- defnyddio dyfeisiau ffonau clyfar wedi'u hamgryptio ac wedi'u diogelu â chyfrinair
- defnyddio amgryptiad e-bost diogel
- dilysu hunaniaeth unrhyw unigolyn sy'n gwneud cais i gael mynediad at wybodaeth cyn rhoi mynediad iddynt
- defnyddio meddalwedd Secure Sockets Layer (SSL) neu dechnolegau amgryptio tebyg eraill i amgryptio unrhyw drafodion rhoi y byddwch chi'n eu gwneud ar neu drwy ein gwefan.

11. Dolenni

Gall gwefan TGP Cymru gynnwys dolenni i safleoedd eraill, nad ydynt yn eiddo i ni ac nad ydym yn eu rheoli. Ni ellir ein dal yn gyfrifol am breifatrwydd gwybodaeth a gasglwyd gan wefannau nad ydynt yn cael eu rheoli gennym ni.

12. Os ydych yn 16 mlwydd oed neu iau

Mae TGP Cymru yn darparu gwasanaethau cyfrinachol i blant a phobl ifanc a lle credir bod plentyn neu berson ifanc yn ddigon aeddfed i gydsynio i wasanaeth, gan gynnwys deall prosesu a rhannu gwybodaeth, byddwn yn ceisio caniatâd yn uniongyrchol gan y person ifanc. Lle teimlir nad yw plentyn neu berson ifanc yn ddigon aeddfed i ddeall yn llawn a chydsynio i wasanaeth, lle mae'n dal yn briodol i ddarparu'r gwasanaeth, byddwn yn ceisio caniatâd rhieni gan ofalwr / gweithiwr proffesiynol cyfrifol y plentyn neu'r person ifanc fel y bo'n briodol. Bydd y seiliau cyfreithiol am brosesu'r mathau amrywiol o ddata rydyn ni'n eu casglu, fel sydd wedi'i nodi isod, yn berthnasol.

13. Eich hawliau mewn perthynas â'ch gwybodaeth

Yn amodol ar rai cyfyngiadau ar hawliau penodol, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'ch gwybodaeth. Gellir arfer yr hawliau hyn drwy ysgrifennu i TGP Cymru, 12 Heol y Gogledd, Caerdydd, CF10 3DY neu drwy e-bostio admin@tgpcymru.org.uk

- yr hawl i gael mynediad at eich gwybodaeth
 - Mae gennych yr hawl i ofyn TGP Cymru p'un a ydym yn prosesu eich gwybodaeth
 - Mae gennych yr hawl i weld y wybodaeth bersonol mae TGP Cymru yn ei chadw amdanoch chi. Ni chodir unrhyw dâl am hyn a phan fyddwch yn gwneud y cais byddwn yn rhoi copi o'ch gwybodaeth bersonol i chi.
- yr hawl i gywiro unrhyw wallau yn eich gwybodaeth bersonol
 - Mae gennych yr hawl i ofyn i TGP Cymru unioni eich gwybodaeth bersonol os yw'n anghywir neu anghyflawn
- yr hawl i gael eich anghofio
 - Mae gennych hawl i wneud cais i'ch gwybodaeth bersonol gael ei dileu mewn amgylchiadau penodol

Nid yw TGP Cymru angen y wybodaeth bersonol mewn perthynas â diben/dibenion casglu'r wybodaeth

Rydych wedi rhoi caniatâd i ni brosesu eich gwybodaeth bersonol ac rydych chi'n tynnu'r caniatâd hwnnw yn ôl

- yr hawl i drosglwyddo data
 - Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd gennych hawl i ofyn i TGP Cymru ddarparu copi electronig o'ch gwybodaeth bersonol naill ai ar gyfer eich defnydd eich hun neu fel y gallwch ei rhannu gyda darparwr gwasanaeth. Pan fo'r hawl hon yn berthnasol gallwch ofyn i ni anfon eich gwybodaeth bersonol yn uniongyrchol i ddarparwr y gwasanaeth.

- yr hawl i wrthwynebu
 - Mae gennych yr hawl i wrthwynebu i TGP Cymru brosesu gwybodaeth bersonol dan yr amodau canlynol:

Y sail ar gyfer prosesu eich gwybodaeth bersonol yw bod gennym ddi-ddordeb dilys i wneud hynny, ond byddwch chi'n cael eich effeithio'n andwyol os byddwn yn gwneud hynny, neu

Rydym yn defnyddio eich gwybodaeth at ddibenion marchnata uniongyrchol

- yr hawl i gyfyngu ar brosesu
 - Mae gennych yr hawl i'n 'hatal' rhag prosesu eich gwybodaeth bersonol. Os yw'n ofynnol i TGP Cymru gyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth, byddwn yn gallu ei storio, ond ni allwn ei defnyddio. Gallwn gadw digon o wybodaeth amdanoch er mwyn sicrhau fod y cyfyngiad yn cael ei barchu yn y dyfodol yn unig.
- yr hawl i dynnu caniatâd yn ôl
 - Lle mae ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol yn seiliedig ar eich caniatâd, mae gennych yr hawl i dynnu caniatâd yn ôl.

Gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl yn y ffyrdd

canlynol: Drwy e-bost – admin@tgpcymru.org.uk

Drwy'r post - TGP CYMRU, 12 Heol y Gogledd,

Caerdydd. CF10 3DY Dros y ffôn – 029 2039 6974

Unwaith y bydd TGP Cymru wedi cael ei hysbysu eich bod yn dymuno tynnu eich caniatâd yn ôl, ni fyddwn yn prosesu eich gwybodaeth bellach at y dibenion y cytunwyd arnynt yn wreiddiol, oni bai ein bod yn gallu seilio ein prosesu ar sail gyfreithiol wahanol.

Dim ond crynodeb o'ch hawliau yw'r uchod. Am wybodaeth bellach ynghylch eich hawliau, ewch i'r dudalen ganlynol ar wefan

Swyddfa'r Comisiynydd

Gwybodaeth: [https://ico.org.uk/your-](https://ico.org.uk/your-data-matters/)

[data-matters/](https://ico.org.uk/your-data-matters/)

Noder, lle byddwch yn gwneud cais am fynediad at eich gwybodaeth, mae'n ofynnol i ni yn ôl y gyfraith i ddefnyddio'r holl fesurau rhesymol i nodi eich hunaniaeth cyn gwneud hynny. Mae'r mesurau hyn wedi'u llunio i ddiogelu eich gwybodaeth ac i leihau'r risg o dwyll hunaniaeth, dwyn hunaniaeth neu fynediad heb ganiatâd cyffredinol at eich gwybodaeth.

14. Gwybodaeth Bersonol Sensitif

Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn cydnabod bod rhai categorïau o wybodaeth bersonol yn fwy sensitif. Gelwir hon yn wybodaeth bersonol sensitif ac mae'n cynnwys gwybodaeth am iechyd, tarddiad hiliol neu ethnig, credoau crefyddol neu gredoau eraill o natur debyg, barn wleidyddol ac aelodaeth o undeb llafur. Byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol sensitif lle mae angen clir i wneud hynny yn unig.

Cyn casglu unrhyw wybodaeth bersonol sensitif amdanoch chi byddwn yn ei gwneud yn glir i chi pa wybodaeth rydym yn ei chasglu a dibenion ar gyfer casglu gwybodaeth o'r fath. Mae'r esboniad hwn wedi'i gynnwys ar ein ffurflenni caniatâd

15. Newidiadau i'r polisi hwn

Gall TGP Cymru ddiwygio'r polisi hwn a bydd yn ei adolygu'n rheolaidd. Bydd ein gwaith o brosesu eich gwybodaeth yn cael ei lywodraethu gan yr arferion a nodir yn y fersiwn newydd o'r Polisi Preifatrwydd o 30 diwrnod yn dilyn rhoi hysbysiad ar faner ar ein gwefan www.tgpcymru.org.uk.